HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD
ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC
Ebrill i Medi 2026/27



HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Blwyddyn

2026/27

Mis

Medi

Ymlaen i'r dashfwrdd

Nifer Mesurau : 30

Cyfnod Adrodd

30 Medi 2026

1
(3.4%)

6
(20.0%)

23
(76.6%)

Crynodeb o'r Prif Negeseuon

- Blaenoriaethau Gwella Cynllun y Cyngor - un prosiect gan yr Adran yn rhan o Gynllun y Cyngor eleni
- Yr Adran yn cyfrannu at nifer o brosiectau eraill yng Nghynllun y Cyngor sydd yn cael eu harwain gan Adrannau eraill
- Holiadur bodlonrwydd cwsmer ar gyfer Meysydd/Parciau Chwarae yn fyw ers mis Medi

HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Blwyddyn 2026/27

Mis diweddaraf Medi

Mis diwethaf Awst

Adrannol

Mis diwethaf 67.4%

69.0%

PP-01 : Canran staff sydd wedi cwblhau'r 9 teitl mandadol (cronnus)

Steffan Jones

Adrannol

Blwyddyn diwethaf 97.8%

97.7%

PP-02 : Canran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi ateb o fewn 20 dydd (cronnus)

Steffan Jones

Adrannol

Mis diwethaf 4.46

5.23

PP-03 : Nifer dyddiau salwch fesul person Cyfwerth Llawn Amser (cronnus)

Steffan Jones

Adrannol

Mis diwethaf 95.7%

97.5%

PP-04 : Canran staff gyda Asesiad Iaith (cronnus)

Steffan Jones

Cynnal Priffyrdd

Blwyddyn diwethaf 80.6%

80.3%

PP-05 : Canran diffygion critigol wedi eu gwneud yn saff o fewn 2 awr (cronnus)

Gareth Roberts

Cynnal Priffyrdd

Blwyddyn diwethaf 75.6%

76.6%

PP-06 : Canran diffygion diogelwch wedi eu gwneud yn saff o fewn y targed (cronnus)

Gareth Roberts

Cynnal Priffyrdd

Mis diwethaf 4.8

1.5

PP-07 : Cyfartaledd dyddiau i ymateb i gŵyn twll mewn ffordd

Adrian Wyn Williams

Cynnal Priffyrdd

Blwyddyn diwethaf 10.1%

9.7%

PP-08 : Canran ffyrdd Dosbarth A, B a C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)

Ian Morgan

Goleuo Stryd

Mis diwethaf 2.7

2.2

PP-09 : Nifer dyddiau ar gyfartaledd i atgyweirio lamp stryd

Colin Worth

Goleuo Stryd

Mis diwethaf Ar drac

Ar drac

PP-10 : Defnydd egni lampau stryd

Colin Worth

Perfformiad yn cadw o fewn amrediad disgwyliedig a dim pryder am ein perfformiad

Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio yn is na'r amrediad disgwyliedig a chamau ar y gweill i adfer y sefyllfa / gwella perfformiad

Perfformiad wedi dirywio o'r amrediad disgwyliedig a camau pendant yn digwydd i adfer y sefyllfa/perfformiad

HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Blwyddyn 2026/27

Mis diweddaraf Medi

Mis diwethaf Awst

Goleuo Stryd

Blwyddyn diwethaf 100.0%

– –

PP-11 : Canran archwiliadau colofnau wedi eu cwblhau (cronnus)

Colin Worth

Fflyd

Mis diwethaf 98.2%

99.0%

PP-12 : Canran archwiliadau diogelwch rhaglenedig wedi eu cwblhau

Kev Sheret

Fflyd

Mis diwethaf 40.8%

46.0%

PP-13 : Canran ceir a faniau'r Cyngor sydd yn gerbydau "gwyrdd"

Kev Sheret

Fflyd

Mis diwethaf 88.6%

87.8%

PP-14 : Canran oriau cynhyrchiol yn y gweithdai

Kev Sheret

Fflyd

Mis diwethaf 87.5%

100.0%

PP-15 : Canran ceisiadau gwaith wedi ateb o fewn 1 awr

Kev Sheret

Fflyd

Mis diwethaf 100.0%

100.0%

PP-16 : Canran cerbydau trwm sydd yn pasio eu prawf MOT

Kev Sheret

Edrychiad Stryd

Mis diwethaf 0.8

0.8

PP-17 : Nifer achosion tipio anghyfreithlon fesul 1,000 o boblogaeth Gwynedd

Steven Edwards

Edrychiad Stryd

Mis diwethaf 4.5

2.6

PP-18 : Nifer dyddiau ar gyfartaledd i gwblhau i ymholiad Baw Cŵn

Steven Edwards

Edrychiad Stryd

Blwyddyn diwethaf 69.7%

82.4%

PP-19 : Canran Hysbysiadau Cosb Penodedig wedi cael eu talu (cronnus)

Steven Edwards

Edrychiad Stryd

Blwyddyn diwethaf 99.3%

86.4%

PP-20 : Canran ceisiadau am waith i'r Tîm Tacluso wedi eu cwblhau (cronnus)

Steven Edwards

Perfformiad yn cadw o fewn amrediad disgwyliedig a dim pryder am ein perfformiad

Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio yn is na'r amrediad disgwyliedig a chamau ar y gweill i adfer y sefyllfa / gwella perfformiad

Perfformiad wedi dirywio o'r amrediad disgwyliedig a camau pendant yn digwydd i adfer y sefyllfa/perfformiad

HERIO A CHEFNOGI PERFFORMIAD ADRAN PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Blwyddyn 2026/27

Mis diweddaraf Medi

Mis diwethaf Awst

Toiledau Cyhoeddus

Mis diwethaf 1.9

1.5

PP-21 : Nifer dyddiau ar gyfartaledd i gwblhau ymholiad Toiledau Cyhoeddus

Amanda Murray

Meysydd Chwarae

Mis diwethaf

3.00

PP-22 : Sgôr allan o 5 ar gyfer Bodlonrwydd Cwsmer

Amanda Murray

Adeiladau ac Isadeiledd

Mis diwethaf Ar drac

Ar drac

YGC-23 : Cwrdd â tharged ariannol yr Uned Adeiladu

Gareth Lloyd Wright

Busnes a Chyflawni Prosiect

Mis diwethaf Ar drac

Ar drac

YGC-24 : Cwrdd â tharged ariannol YGC gyfan

Rhys Wynn Williams

Busnes a Chyflawni Prosiect

Mis diwethaf 9.6

8.9

YGC-25 : Sgôr allan o 10 ar gyfer Bodlonrwydd Cwsmer

Sion Arwel Jones

Dŵr ac Amgylchedd

Blwyddyn diwethaf 82.5%

90.2%

YGC-26 : Canran yr asedau sydd mewn cyflwr boddhaol neu well

Rob Williams

Dŵr ac Amgylchedd

Mis diwethaf 88.2%

89.5%

YGC-27 : Canran ceisiadau SDC wedi derbyn penderfyniad o fewn y traged (cronnus)

Rob Williams

Dŵr ac Amgylchedd

Mis diwethaf Monitro

Monitro

YGC-28 : Cynlluniau Llifogydd wedi eu cwblhau

Rob Williams

Gwasanaeth Dechnegol

Mesur parhaol

90.7%

YGC-29 : Canran strwythurau mewn cyflwr boddhaol neu well (BCI Cyflwr Derbyniol)

Owen Rhys Jones

Gwasanaeth Dechnegol

Blwyddyn diwethaf 100.0%

38.7%

YGC-30 : Canran o'r archwiliadau pontydd ffyrdd wedi eu cwblhau (cronnus)

Owen Rhys Jones

Perfformiad yn cadw o fewn amrediad disgwyliedig a dim pryder am ein perfformiad

Elfen o bryder bod perfformiad yn dechrau syrthio yn is na'r amrediad disgwyliedig a chamau ar y gweill i adfer y sefyllfa / gwella perfformiad

Perfformiad wedi dirywio o'r amrediad disgwyliedig a camau pendant yn digwydd i adfer y sefyllfa/perfformiad

UNED REOLI - STEFFAN JONES

Blwyddyn

2026/27


Mis

Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-01 : Canran staff sydd wedi cwblhau'r 9 teitl mandadol

Canran staff wedi cwblhau gwahanol deitlau mandadol (cronnus)



69.0%

Canran wedi cwblhau 9 teitl

Tu ôl i'r perfformiad

Mae gwaith wedi digwydd i annog staff i gwblhau'r teitlau cyn gynted a phosibl.

Mae'r fersiwn fideo o'r teitl Diogelu wedi ein helpu i gyrraedd y staff rheng flaen yn haws, ac bydd sesiynau i'r ychydig staff rheng flaen sydd ar ôl yn cael eu trefnu yn fuan.

Mae'r teitl Canu'r Gloch yn weddol newydd a bydd angen i'r Adran roi sylw i godi'r ganran yma.

UNED REOLI - STEFFAN JONES


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-02 : Canran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi eu ateb o fewn 20 dydd

Canran ceisiadau rhyddid gwybodaeth wedi eu ateb o fewn 20 dydd



97.7%

% wedi ateb o fewn 20 dydd

Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r Adran wedi derbyn **43 cais** Rhyddid Gwybodaeth rhwng Ebrill a Medi 2026. Mae'r Adran wedi llwyddo i ateb 42 o rhain o fewn 20 dydd. Cafodd yr un oedd yn hwyr ei ateb ei anfon ymlaen o fewn yr amser i'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol, ond yn anffodus ni chafodd yr ymholydd yr ateb nes diwrnod ar ôl y dyddiad targed.

Mae'r ganran ateb o fewn 20 dydd yn **97.7%** ar gyfer y flwyddyn hyd yma. Ar gyfer 2024/25 llwyddwyd i ateb 87.9% yn unig o'r ceisiadau o fewn yr 20 dydd, ac yn 2025/26 roedd y ganran yn 97.8%.

Mae'r ceisiadau ar y cyfan wedi cynnwys ceisiadau yn holi am nifer tyllau mewn ffordd, gwybodaeth am ffyrdd oedd wedi cael eu cau, gwybodaeth am waith ar gylchfannau, nifer cwynion am fflagiau, gwybodaeth am Hysbysiadau Cosb Penodedig.

Erbyn hyn mae data am niferoedd tyllau yn y ffordd a'r gôst o'u trwsio wedi ei roi ar dudalen Data Agored y Cyngor fydd yn lleihau y baich ar swyddogion i ail greu data i pob cais. Byddwn yn edrych am fwy o setiau data i'w rhoi ar wefan y Cyngor.

UNED REOLI - STEFFAN JONES

Blwyddyn


2026/27

Mis

Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-03 : Nifer dyddiau salwch fesul person Cyfwerth Llawn Amser



Tu ôl i'r perfformiad

Gwelwn bod patrwm salwch 2026/27 ar gyfer y chwe mis cyntaf yn dilyn patrwm 2025/26 yn agos iawn gyda cyfradd eleni ychydig is ar 5.23 dydd fesul person.

Mae lefelau salwch hyd yma yn dilyn patrwm hynod o debyg i'r un ar gyfer y Cyngor cyfan.

Ffigwr ar gyfer y Cyngor cyfan erbyn diwedd Medi oedd **5.89 dydd**, felly perfformiad yr Adran fymryn yn well ar **5.23 dydd.**

Y math mwyaf cyffredin o salwch yn yr Adran ydi slawch cyhyrsgerbydol a straen

Mae'r Adran wedi bod yn gosod pamffeldi gwybodaeth amrywiol am gefnogaeth sydd ar gael gyda materion iechyd o gwmpas y swyddfeydd a'r Depos. Trafodaethau yn digwydd gyda Byw'n Iach er mwyn cyd-weithio i gynnig sesiynau ymarfer i'n gweithwyr.

UNED REOLI - STEFFAN JONES

Blwyddyn


2026/27

Mis

Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-04 : Canran staff gyda Asesiad Iaith



Tu ôl i'r perfformiad

- Mae'r Adran yn cyflogi 440 o staff.
- Mae 280 o'r staff wedi cwblhau'r Hunanasesiad Iaith sef 63.6%.
- Ar gyfer 149 pellach o'r gweithlu (rheng flaen), mae'r rheolwyr llinell wedi cwblhau asesiad ar eu rhan.
- Mae hyn yn gadael 11 sydd heb asesiad iaith o gwbl.
- Mae **97.9%** o'r staff yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd.
- Mae 9 aelod o staff nad ydyn nhw'n cyrraedd dynodiad iaith eu swydd.

Rydym yn cefnogi ein staff i fynychu hyfforddiant perthnasol.
Mae'r Uned Fusnes yn hysbysebu staff pan fydd cyrsiau ar gael ac yn cefnogi unrhyw unigolyn fyddai'n dymuno mynychu.
Mae nodyn atgoffa yn mynd allan ar gyfer yr 11 sydd heb asesiad o gwbl.
Rhaid sicrhau hefyd bod unigolion yn ail gwblhau eu hasesiad os oes newid wedi bod yn eu gallu yn dilyn hyfforddiant.

GWASANAETH CYNNAL PRIFFYRDD - GARETH ROBERTS

Pwrpas y Gwasanaeth :
Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddi-rwystr


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi


Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-05 : Canran y diffygion critigol sydd yn cael eu gwneud yn saff o fewn 2 awr

Nifer diffygion critigol



Canran diffygion critigol wedi eu gwneud yn saff o fewn 2 awr



Tu ôl i'r perfformiad

Diffyg Critigol: Y targed ymateb i'r math yma o ddiffyg ydi o fewn 2 awr.

Mae diffyg critigol yn sefyllfa lle mae'r swyddog archwilio yn ystyried y risg i ddiogelwch yn ddigon uchel i fod angen sylw ar unwaith megis llifogydd, mwd ar y lon neu caead ar goll. Dyma enghreifftiau o ddiffygion critigol mae'r gwasanaeth yn delio gyda nhw.







Cafwyd 147 diffyg critigol rhwng Ebrill a Medi. Mae niferoedd y diffygion yn dilyn patrymau tymhorol gyda mwy o ddiffygion i'w gweld yn ystod tymor y gaeaf.

Allan o'r 147 diffyg, cafodd:

- **118 (80.3%)** eu gwneud yn saff o fewn dwy awr
- **29 (19.7%)** eu gwneud yn saff ar ôl dwy awr

Gwelir amrywiaeth ym mherfformiad y dair ardal gyda Arfon ar 68%, Dwyfor 80% a Meirionnydd 92%.

GWASANAETH CYNNAL PRIFFYRDD - GARETH ROBERTS

Pwrpas y Gwasanaeth :
Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddi-rwystr


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi


Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-06 : Canran y diffygion diogelwch sydd yn cael eu gwneud yn saff o fewn y targed amser

Nifer diffygion diogelwch



Canran diffygion diogelwch wedi eu gwneud yn saff o fewn y targed amser



Tu ôl i'r perfformiad

Diffyg Diogelwch: Ymateb cyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.

Mae diffyg diogelwch yn geisiadau am wasanaeth neu ddiffygion sy'n gofyn am ymateb cyn gynted â phosib er mwyn cael gwared ar risg bosib o anaf i ddefnyddwyr. Dyma enghreifftiau o ddiffygion diogelwch mae'r gwasanaeth yn delio gyda nhw yn rheolaidd.



Cafwyd 1,785 diffyg diogelwch rhwng Ebrill a Medi. Gwelwn fod patrwm tymhorol i'r nifer diffygion, gyda mwy yn digwydd yn ystod y gaeaf.

Allan o'r 1,785 diffyg, cafodd
- **1,367 (76.6%)** eu gwneud yn saff o fewn y targed amser
- **414 (23.2%**) eu gwneud yn saff ar ôl y targed ymateb
- **4 (0.2%)** dal yn agored

Gwelir amrywiaeth ym mherfformiad y dair ardal gyda Arfon ar 56%, Dwyfor 95% a Meirionnydd 95%.

GWASANAETH CYNNAL PRIFFYRDD - ADRIAN WYN WILLIAMS


Pwrpas y Gwasanaeth :
Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddi-rwystr

Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-07 : Cyfartaledd dyddiau i ymateb i gŵyn twll mewn ffordd



Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r graff llinell yn cymharu'r niferoedd o gwynion "twll mewn ffordd" sydd wedi eu derbyn drwy system FFOS.

Nifer y cwynion sydd wedi eu derbyn rhwng Ebrill a Medi eleni ydy 395.

Ar gyfer y flwyddyn hyd yma cyfartaledd y dyddiau i gwblhau ymholiad yn **9 dydd** sydd yn gynnydd bach ers adrodd ar dri mis cyntaf y flwyddyn.

GWASANAETH CYNNAL PRIFFYRDD - IAN MORGAN


Pwrpas y Gwasanaeth :
Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddi-rwystr


Blwyddyn 2026/27


Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-08 : Canran ein ffyrdd Dosbarth A, B a C sydd mewn cyflwr gwael







Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r graffiau yn dangos canlyniadau profion technegol ar ein ffyrdd Dosbarth A, B a C, sydd yn cael eu cayflawni gan gwmni WDM ar ran y Cyngor.
Gwyrdd = Ffordd, yn gyffredinol, mewn cyflwr da, dim diffygion angen archwiliadau pellach.
Ambr = Ffordd yn arddangos diffygion angen archwiliad yn fuan i adnabod gwaith trwsio addas
Coch = Cyflwr yn ffordd yn gyffredinol wael a bydd yn debygol o fod angen gwaith cynnal arfaethedig yn fuan.

Ystyrir bod cadw canran ein ffyrdd mewn cyflwr coch o dan 8% yn dderbyniol.

Cyfanswm canran ein ffyrdd A, B a C sydd mewn cyflwr drwg

9.7%

A = 4.2% (27km)
B = 5.2% (21km)
C = 13.2% (228km)

Fe welwch bod canrannau ein ffyrdd o fewn y gwyrdd wedi gostwng rhwng 2021/22 a 2024/25 er y buddsoddiad cyfalaf mae'r Cyngor wedi ei wneud ynddynt. Bu gostyngiad o bron i 11% ar ei'n ffyrdd Dosbarth A, 15% ar ei'n ffyrdd Dosbarth B a 4.5% ar ei'n ffyrdd Dosbarth C dros y cyfnod. Ond fel y gwelwch, mae canlyniadau 2025/26 i weld yn dangos bod y dirywiad graddol hwnnw o fewn y ffyrdd Dosbarth A a B bellach wedi ei nadu, a'r ffyrdd Dosbarth C yn aros yn gyson. Rydym yn hyderus bydd y gwellhad mewn cyflwr ei'n ffyrdd yn parhau o ganlyniad i fuddsoddiad arian Menter Benthyca Llywodraeth Leol dros 2025/26 a 2026/27.

Yn hanesyddol dim ond gwybodaeth o ganlyniad i'r archwiliadau diogelwch oedd gan y Gwasanaeth fel cofnod o gyflwr ein ffyrdd Di-ddosbarth. Mae'r Gwasanaeth wedi penderfynu parhau gyda system technoleg "AI" i ddadansoddi gwybodaeth sydd yn cael ei gasglu gan gymryd fideo o'r ffyrdd wrth i'r arolygwr gynnal archwiliad. Bydd hyn yn ei'n cynorthwyo i gadw cofnod o'r gwellhad mewn cyflwr ffyrdd di-ddosbarth o ganlyniad i fuddsoddiad y Menter Benthyca Llywodraeth Leol.

GWASANAETH CYNNAL PRIFFYRDD - IAN MORGAN

Pwrpas y Gwasanaeth :
Galluogi'r cyhoedd i deithio ar ffyrdd Gwynedd yn ddiogel ac yn ddi-rwystr

Blwyddyn 2026/27

Mis Medi


Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-08a : Gwaith Cynnal a Chadw Ataliol

Mae'r Cyngor, er mwyn ymgymryd a gwaith cynnal a chadw ataliol, yn cyflawni arolygon cyflwr rheolaidd o'r rhwydwaith ffyrdd Strategol a Prif Ddosbarthydd. Un o'r arolygon cyflwr rydym yn ei gynnal yw'r arolwg Griptester, sy'n mesur gallu'r arwyneb i wrthsefyll sgidio.

Bydd 33% o'r ffyrdd Strategol a Prif Ddosbarthydd yn derbyn arolwg gyda'r peiriant Griptester Mk2 ac felly mae'r rhwydwaith Strategol a Phrif Ddosbarthydd cyfan yn derbyn arolwg pob tair mlynedd. Mae'r peiriant Griptester Mk2 yn cael ei gynnal yn fewnol gan y Cyngor, a'r arolwg yn cael ei gyflawni gan Ymgynghoriaeth Gwynedd.

Mae'r canlyniadau yn cadarnhau os yw'r lefelau gwrthlithro yn briodol i'r ffordd a'r traffig yn y safle dan sylw ac egwyddorion cyffredinol y "DMRB CS228 Skidding Resistance (formerly HD28/15)". Maent hefyd yn amlygu safleoedd sydd angen archwiliad pellach ac o bosib gwaith adfer tymor byr neu hir dymor. Mae'r canlyniadau yn cael eu cyflwyno ar ffurf map gyda'r lliwiau ar y tabl yn amlygu'r lleoliadau sydd o dan lefelau archwiliad. Mae'r canlyniadau yn cynorthwyo'r peirianwyr tra'n llunio rhaglenni a blaenoriaethu gwaith mawr megis arwisgo, arosod neu ail-wynebu ffyrdd.



GripTester
UK Roads User Group

GripNumber Investigatory Levels for GripTesterMK2 (Based on 2009 TRL Correlation)

Site Category and definition			Investigatory Levels at 50km/h							
Table 4.2 CS 228		SFC	0.30	0.35	0.40	0.45	0.50	0.55	0.60	0.65
Category		GripNumber	0.34 - 0.38	0.39 - 0.44	0.45 - 0.50	0.51 - 0.55	0.56 - 0.61	0.62	0.67	0.73
A	Motorway									
B	Dual Carriageway non-event									
C	Single Carriageway non-event									
Q	Approaches to and across minor and majorjunctions, approaches to roundabouts									
K	Approaches to pedestrian crossings and other high risk situations									
R	Roundabout									
G1	Gradient 5-10% longer than 50m									
G2	Gradient >10% longer than 50m									
S1	Bend radius <500m - dual carriageway									
S2	Bend radius <500m - single carriageway									

SCRIM = 0.89 x Grip Number

GWASANAETH GOLEUO - COLIN WORTH

Pwrpas y Gwasanaeth :
Galluogi'r cyhoedd deimlo yn saff ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus Gwynedd drwy gynnal a chadw unedau goleuo, arwyddion golau a goleuadau traffig.


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-09 : Nifer y dyddiau ar gyfartaledd i atgyweirio lamp stryd

Nifer y dyddiau ar gyfartaledd i atgyweirio lamp stryd



Mis	Nifer diffygion
Ebrill	329
Mai	210
Mehefin	264
Gorffennaf	244
Awst	340
Medi	267
Cyfanswm	**1,654**

Tu ôl i'r perfformiad

Targed y gwasanaeth ar gyfer atgyweirio lamp stryd ydi 5 diwrnod.

Atgyweirwyd 1,654 o lampau stryd rhwng Ebrill a Medi, a llwyddwyd i wneud hynny mewn cyfartaledd o 2.6 diwrnod.

Roedd Scottish Power yn gyfrifol am atgyweirio 22 diffyg arall rhwng Gorffennaf a Medi. O rhain maent wedi cwblhau 7 ohonynt mewn 22 dydd ar gyfartaledd.

Mae'r 15 diffyg arall yn parhau heb eu hatgyweirio ganddynt.

I daclo'r sefyllfa gyda Scottish Power mae Gwynedd fel rhan o Grŵp Goleuo Gogledd Cymru wedi bod yn trafod sut i roi pwysau ar Scottish Power. Mae Sir Y Fflint yn cydweithio gyda ni bellach i roi pwysau ar y cwmni i ymweld â'r safle yn gynt fel ein bod yn gallu osgoi rhoi eithriadau ar y gwaith sydd yn achosi iddynt fethu cwblhau gwaith o fewn y targed.

GWASANAETH GOLEUO - COLIN WORTH


Pwrpas y Gwasanaeth :
Galluogi'r cyhoedd deimlo yn saff ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus Gwynedd drwy gynnal a chadw unedau goleuo, arwyddion golau a goleuadau traffig.

Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-10 : Defnydd egni lampau stryd (kWh)



Tu ôl i'r perfformiad

Mae defnydd egni goleuadau stryd ac arwyddion ffyrdd y chwe mis cyntaf yn 2026/27 wedi bod yn eithaf sefydlog fel y disgwylir ac yn dilyn patrwm tymhorol.

Bydd nifer o asedau yn ein gofal yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn e.e. bydd datblygiadau tai newydd yn golygu bydd asedau yn trosglwyddo i gyfrifoldeb cynnal a chadw ein gwasanaethau.

GWASANAETH GOLEUO - COLIN WORTH

Pwrpas y Gwasanaeth :
Galluogi'r cyhoedd deimlo yn saff ar rwydwaith ffyrdd, llwybrau a mannau cyhoeddus Gwynedd drwy gynnal a chadw unedau goleuo, arwyddion golau a goleuadau traffig.

Blwyddyn: 2026/27

Mis: Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-11 : Canran o'r Rhaglen Archwilio wedi ei chwblhau

Ardal	Nifer Colofnau angen archwiliad	Nifer wedi cwblhau	% wedi cwblhau

Tu ôl i'r perfformiad

Mae cyfanswm o 2,313 o archwiliadau rhaglenedig ar gyfer 2026/27.

Rydym wedi mynd allan i dendr yn ddiweddar ac rydym yn y broses o allu cyfarfod gyda'r darparwr newydd ym mis Hydref. Bydd y gwaith yn cael ei gynnal yn ystod trydydd a pedwerydd chwarter y flwyddyn.

Er nad ydy'r archwiliadau wedi cychwyn eto, nid ydym yn pryderu am allu cwblhau y rhaglen archwilio cyn diwedd y flwyddyn.

GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET


Pwrpas y Gwasanaeth :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.

Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

Defnydd Tanwydd Fflyd y Cyngor



Tu ôl i'r perfformiad

O gymharu 2025/26 gydag amcan ar gyfer 2026/27 rydym yn edrych ar ostyngiad o 5.0% yn ein defnydd o danwydd. Mae hyn yn gyfatebol i 77,113 litr yn llai o danwydd sydd gyfwerth i tua £125,027 ar brisiau mis Medi 2026.

Gwelir gostyngiad yn ystod chwe mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol o 7.3% o gymharu a llynedd. A hefyd gwelir y defnydd o danwydd hefyd i lawr 8.6% wrth gymharu yr un cyfnod eleni (Gorffennaf i Medi) a llynedd.

Gwelir y gostyngiad yma o ganlyniad i ddau brif reswm. Yn gyntaf, trosglwyddiad nifer o gerbydau o rhai tanwydd traddodiadol i rai trydan. Yn ail, gwasanaethau yn gwaredu a cherbydau ychwanegol.

Noder, nid yw'r ffigyrau uchod yn cynnwys unrhyw deithiau fflyd lwyd a wneir gan y Cyngor. Nid yw'r Gwasanaeth Fflyd yn gyfrifol am y teithiau yma. Ymhellach nid yw'n cynnwys pryniant o betrol i offer drwy gardiau tanwydd.

GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET

Pwrpas y Gwasanaeth :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.

Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-12 : Canran archwiliadau diogelwch rhaglenedig sydd wedi eu cwblhau

Mis	Nifer archwiliadau diogelwch i'w cwblhau	Nifer wedi cwblhau	Fel canran
Ebrill	180	178	98.9%
Mai	192	187	97.4%
Mehefin	167	158	94.6%
Gorffennaf	191	187	97.9%
Awst	164	161	98.2%
Medi	197	195	99.0%
Cyfanswm	**1,091**	**1,066**	**97.7%**

Rheswm	Nifer achosion
Cerbyd oddi ar y ffordd	3
Heb drefnu apwyntiad	4
Heb droi fyny i apwyntiad	18
Cyfanswm wedi methu apwyntiad	**25**

Tu ôl i'r perfformiad

Fel rhan o drefniadau cynnal a chadw cerbydau'r Cyngor, mae'r gweithdai yn gyfrifol am gynnal archwiliadau diogelwch rheolaidd ar y cerbydau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gwasanaeth Fflyd wedi cyflwyno trefn newydd i hysbysu a threfnu apwyntiadau. Mae'n ofyn statudol ar y Gwasanaeth Fflyd i gwblhau archwiliadau ar y cerbydau o fewn wythnos gwaith. Mae'r mesur yma yn mynd ymhellach na'n gofynion statudol ac yn edrych ar berfformiad y gweithdy i gwblhau o fewn diwrnod.

Gwelir o'r ffigyrau yma'r nifer o archwiliadau yr oedd disgwyl i'r gweithdai gwblhau yn ogystal â'r canran sydd wedi eu cwblhau ar amser.

Ni fu'n bosib cwblhau pob archwiliad oherwydd rhesymau a nodir yn y tabl ar y dde uchod.

Pan fydd cerbydau yn methu apwyntiadau bydd y Gwasanaeth Fflyd yn gorfod ail drefnu apwyntiadau gyda'r gwasanaeth perthnasol sydd yn creu anawsterau i'r gweithdai.

Os na fydd gwasanaeth yn cyflwyno'r cerbyd i'r gweithdai, fe all y Gwasanaeth Fflyd atal y gwasanaeth rhag defnyddio'r cerbyd.

GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET

Pwrpas y Gwasanaeth :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-13 : Canran ceir a faniau'r Cyngor sydd yn gerbydau "gwyrdd"

Canran Ceir a Faniau'r y Cyngor sydd yn gerbydau "gwyrdd", fesul Adran



Gwasanaeth o fewn Adran PPYGC	Trydan	Petrol Hybrid	"ICE"	% Gwyrdd
Gwasanaeth Goleuo	1	2	1	75.0%
YGC	4	1	12	29.4%
Asedau Bwrdeistrefol	4	0	8	33.3%
Gwasanaeth Fflyd	5	0	3	62.5%
Gwasanaethau Edrychiad Stryd	11	0	6	64.7%
Gwywiad yr Onnen	0	0	1	0.0%
Priffyrdd	6	0	11	35.3%
Cyfanswm	**31**	**3**	**42**	**44.7%**

Tu ôl i'r perfformiad

Mesur i ddangos beth ydi sefyllfa'r Cyngor o ran symud i gerbydau gwyrdd. Mae gan Llywodraeth Cymru darged o 100% erbyn y flwyddyn 2030. Adroddwyd gan y Gwasanaeth Ynni (Llywodraeth Cymru), bod Cyngor Gwynedd gyda'r **ail nifer fwyaf o gerbydau gwyrdd** yn ei fflyd wrth gymharu gyda cynghorau gwledig yn Nghymru. Bydd y Gwasanaeth Fflyd yn parhau ar y rhaglen o adnewyddu cerbydau am rai gwyrdd pan fo'r isadeiledd yn caniatáu.

Cyngor Cyfan
99 (46%) o'r 213 car neu fan bellach yn rhai gwyrdd (trydan neu hybrid).
O'r 114 o gerbydau disel/petrol sydd yn weddill mae 59 ohonynt yn gerbydau sydd unai wedi eu hadnewyddu a'u cadw ymlaen, yn rhai sydd wedi eu hurio neu sydd heb gynlluniau ariannu ar eu cyfer.

Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC
Mae 34 (45%) o'r 76 car neu fan yn rhai gwyrdd (trydan neu hybrid).
O'r 42 o gerbydau disel/petrol sydd yn weddill mae 17 ohonynt yn gerbydau sydd yn cael eu hurio ac 8 o gerbydau wedi ei adnewyddu ond nid yw'r gwasanaeth wedi rhyddhau'r hen gerbyd.

Pwyntiau Gwefru Y Cyngor
Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor 76 pwynt gwefru ar gyfer defnydd cerbydau'r Cyngor. Maent wedi eu lleoli ar draws y sir. Mae 74 ohonynt yn rhai 7kw a 2 yn rhai 22kw.

GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET

Pwrpas y Gwasanaeth :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-14 : Canran oriau cynhyrchiol y gweithdai

Canran oriau cynhyrchiol fesul gweithdy



Tu ôl i'r perfformiad

Mae cynhyrchiant y gweithdai yn cymharu'r amser a gofnodwyd yn gweithio ar gerbydau yn erbyn y nifer o oriau a oedd yr unigolion ar gael. Mae'r mesur yma yn cynnig asesiad sy'n canolbwyntio ar y sut mae'r gweithlu yn defnyddio ei amser.

Er mwyn sicrhau bod y gweithdai yn gost effeithiol, rydym yn anelu at gyfradd o 86.5% yn y nifer o oriau cynhyrchiol. Gwelir bod y gweithdai yn perfformio yn well na'r canran yma ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn.

Adroddwyd y wybodaeth yma yn fisol i Dîm Rheoli'r Gweithdai ble rydym yna yn adnabod cyfleoedd i wellau ein perfformiad. Fe ellir hyn fod yn symud gwaith o un gweithdy i llall, neu adnabod cyfleoedd o du allan i'r Cyngor i ddod ac incwm i mewn.

Wrth i ni drawsnewid y fflyd i gerbydau gwyrdd, rydym yn cychwyn gweld y galw ar y gweithdai yn lleihau. Mae hyn am gael effaith negyddol ar waith y gweithdai a'i gallu i gyrraedd y lefel disgwyliedig. Mae'r Gwasanaeth yn monitro'r sefyllfa yma ac yn edrych ar opsiynau i leihau'r risg.

GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET

Pwrpas y Gwasanaeth :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-15 : Canran ceisiadau wedi ateb o fewn y targed

Nifer munudau i gwblhau cais am wasanaeth



141
Nifer Ceisiadau

96.5%
Canran wedi ateb o fewn targed

Tu ôl i'r perfformiad

Yma dangosir nifer y munudau mae'r gwasanaeth yn gymryd i gwblhau cais am wasanaeth.

Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau i gael:
- Hurio cerbydau
- Mynediad i danwydd
- Ychwanegu gyrwyr i'r gofrestr
- Ceisiadau hyfforddiant
- Mynediad i systemau Fflyd

Mae gennym darged i gwblhau rhain **o fewn 1 awr** o dderbyn y cais.
Yn ystod y 6 mis cyntaf rydym wedi llwyddo i gwblhau **96.5%** o'r ceisiadau o fewn yr awr.

Mae'r mwyafrif o geisiadau sydd heb eu cwblhau o fewn yr awr yn geisiadau i hurio cerbydau. Fel rheol mae'r rhain yn cymryd fwy o amser, yn enwedig pan fydd angen ffeindio cerbyd arbenigol.

GWASANAETH FFLYD - KEV SHERET


Pwrpas y Gwasanaeth :
Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion Gwynedd - o gasglu gwastraff i gynnal priffyrdd a chludo disgyblion.

Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-16 : Canran cerbydau trwm y Cyngor sydd yn pasio eu prawf MOT



96.9%
Canran cerbydau wedi pasio prawf MOT ers 1af Ebrill 2026

Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r mesur yma yn dangos y nifer o brofion MOT sydd wedi eu cynnal ar gerbydau trwm y Cyngor a'r canran sydd wedi pasio y tro cyntaf.

Mae profion MOT ar gerbydau trwm yn cael eu cynnal gan y DVSA ac mae'r mesur yma yn dangos llwyddiant y gweithdai i'w paratoi i'r lefelau disgwyliedig. Dangoswyd hefyd y lefel pasio tro cyntaf yn genedlaethol (ar draws y DU) fel cymhariaeth ar y graff.

Pan fydd methiant yn digwydd, fe fydd ymchwiliad mewnol yn cael ei gynnal i geisio ffeindio'r rheswm dros y methiant. Defnyddir y methiannau yma fel cyfleoedd i adnabod gwendidau yn ein trefniadau ac adnabod ffyrdd i wella.

GWASANAETH EDRYCHIAD STRYD A TCC - STEVEN EDWARDS

Pwrpas y Gwasanaeth :
Darparu strydoedd a thiroedd cyhoeddus glân a thaclus.


Blwyddyn 2026/27


Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-17 : Nifer yr achosion tipio anghyfreithlon fesul 1,000 o'r boblogaeth

Nifer achosion Tipio Anghyfreithlon





Tu ôl i'r perfformiad

Mae nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd yn ystod y chwe mis cyntaf y flwyddyn yn uwch na'r un cyfnod y llynedd. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i newid yn y dull cofnodi, gyda digwyddiadau ar dir preifat bellach yn cael eu cynnwys, sy'n cynhyrchu darlun mwy cyflawn o'r broblem.

Mae'r gwasanaeth wedi parhau i ddatblygu ei ddull ataliol a gorfodi, gan gyflwyno ymgyrchoedd ymwybyddiaeth wedi'u targedu mewn ardaloedd problemus drwy ddefnyddio pamffledi, llythyrau ac arwyddion. Mae nifer sylweddol o achosion yn digwydd mewn cefnffyrdd a lonydd cul lle mae'n anodd adnabod troseddwyr neu gael tystiolaeth, ac o ganlyniad mae ymyrathau wedi'u targedu mewn lleoliadau penodol.

Yn ystod y flwyddyn, sicrhawyd cyllid drwy raglen Fly-tipping Action Wales, Llywodraeth Cymru i gaffael chwe camera cudd ychwanegol. Bydd y rhain yn cynyddu gallu'r gwasanaeth i adnabod troseddwyr a chasglu tystiolaeth mewn lleoliadau problemus. Mae swyddogion gorfodaeth hefyd bellach â mynediad uniongyrchol at system TCC y Cyngor, sydd yn help i gryfhau gallu'r gwasanaeth i ymchwilio i achosion a chefnogi erlyniadau lle bo angen.

Mae pob Hysbysiad Cosb Benodedig (FPN) yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn er mwyn galluogi'r gwasanaeth i symud ymlaen at erlyniad os na thelir y gosb. O ganlyniad, mae nifer yr FPNau sy'n cael eu canslo wedi lleihau. Mae proses apelio dêg a thryloyw ar waith, gyda phob apêl yn cael ei drafod ar sail y dystiolaeth ar gael.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu cynigion drwy'r Papur Gwyn ar Droseddau Amgylcheddol i gryfhau pwerau gorfodi a chynyddu lefelau dirwyon, gan roi mwy o allu i awdurdodau lleol fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a throseddau amgylcheddol. Mae enghreifftiau yma'n cynnwys:

- Y gallu i ddirwyo perchnogion cofrestredig cerbydau y gwelwyd sbwriel yn cael ei daflu ohonynt.
- Codi'r dirwy uchaf bosibl am dipio anghyfreithlon o £400 i £5,000

GWASANAETH EDRYCHIAD STRYD A TCC - STEVEN EDWARDS


Pwrpas y Gwasanaeth :
Darparu strydoedd a thiroedd cyhoeddus glân a thaclus.

Blwyddyn
2026/27

Mis
Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-18 : Nifer dyddiau ar gyfartaledd i ymateb i ymholiad Baw Cŵn





Tu ôl i'r perfformiad

Bu cynnydd yn nifer yr adroddiadau am faw cŵn yn ystod y chwe mis cyntaf y flwyddyn, gyda'r cynnydd mwyaf yn ystod mis Awst yn gysylltiedig â phroblem sylweddol mewn ardaloedd penodol (Garndolbenmaen a Hendre) lle'r oedd nifer uchel o drigolion yn adrodd ar broblem barhaus. Mewn ymateb, cynhaliwyd patrolau rheolaidd, bu ymgysylltu â thrigolion lleol a gosodwyd arwyddion newydd yn yr ardaloedd. Mae'r cyfuniad o batrolau, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac arwyddion newydd wedi cyfrannu at wella'r sefyllfa, gyda nifer y cwynion bellach wedi gostwng yn ôl i lefelau tebyg i'r un cyfnod y llynedd.

Mae pamffledi newydd wedi'u datblygu ar gyfer ardaloedd problemus. Yn ogystal, mae arwyddion sy'n disgleirio yn y tywyllwch wedi'u gosod mewn lleoliadau problemus i godi ymwybyddiaeth ac annog perchnogaeth gyfrifol. Mae'r dull yma wedi profi'n effeithiol mewn nifer o leoliadau yn ddiweddar.

Mae'r gwasanaeth yn archwilio i ddefnyddio paent marcio dros dro i dynnu sylw at achosion o faw cŵn mewn mannau cyhoeddus, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar ymddygiad. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda Chyngorau Tref / Cymunedol. Slogan yr ymgyrch..... Pw-Pinc / Pink-Poo.

GWASANAETH EDRYCHIAD STRYD A TCC - STEVEN EDWARDS

Pwrpas y Gwasanaeth :
Darparu strydoedd a thiroedd cyhoeddus glân a thaclus.


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi


Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-19 : Canran Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi cael eu talu

Nifer Hysbysiadau Cosb Benodedig



Math o drosedd



Tu ôl i'r perfformiad
Mae'r dull "Addysg yn Gyntaf" wedi derbyn mwy o bwyslais yn ystod y flwyddyn yma, gan roi blaenoriaeth i ymgysylltu â'r gymuned, llythyrau rhybuddio (camau 1,2,3), codi ymwybyddiaeth ac addysgu cyn troi at gamau gorfodaeth ffurfiol.
Mae swyddogion yn cynnal patrolau rheolaidd mewn ardaloedd problemus ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd er mwyn annog newid ymddygiad a chydymffurfiaeth, defnyddir ymyriadau addysgol, pamffledi, rhybuddion ac arwyddion fel cam cyntaf.

Yn y cyd-destun yma, mae 34 Hysbysiad Cosb Benodedig wedi'u cyhoeddi yn ystod y chwe mis cyntaf, sydd yn llai na'r cyfnod yma flwyddyn yn ôl. Mae'r ffigur yma yn adlewyrchu'r dull addysgu, ac yn dangos mwy o bwyslais dyddiau yma ar gyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig (FPNs) cadarn – hynny yw, rhai sy'n seiliedig ar dystiolaeth bendant pe bai'r angen mynd ar mater i'r llys. Mae sicrhau tystiolaeth ddigonol ar gyfer gorfodaeth yn parhau i fod yn her sylweddol.
Mae cyflwyniad rhaglen newydd GLÂN yn cyfrannu at y gwaith yma drwy alluogi adnoddau i gael eu targedu'n fwy effeithiol at ardaloedd problemus, gan gefnogi ymdrechion i leihau problemau sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon ledled y sir. Yn ogystal, mae defnydd cynyddol o gamau atal a gorfodi megis camerâu cudd, TCC, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a chyhoeddi erlyniadau llwyddiannus yn helpu i gryfhau'r neges ataliol a chefnogi cydymffurfiaeth hirdymor.

Blwyddyn	Nifer	% wedi talu	% aros talu	% wedi canslo	% achos llys	% heb dalu
2023/24	72	72.2%	0.0%	25.0%	2.8%	0.0%
2024/25	124	71.0%	0.0%	26.6%	1.6%	0.8%
2025/26	109	69.7%	0.0%	27.5%	2.8%	0.0%
2026/27	34	64.7%	17.6%	8.8%	8.8%	0.0%

GWASANAETH EDRYCHIAD STRYD AC TCC - STEVEN EDWARDS

Pwrpas y Gwasanaeth :
Hybu perchnogaeth leol a datblygu ymdeimlad o falchder bro drwy weithio ar lefel cymunedol wrth fagu perthnasau â grwpiau/mudiadau lleol, gwirfoddolwyr a'r trydydd sector.


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi


Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-20 : Canran ceisiadau am waith i'r Tîm Tacluso wedi eu cwblhau

Nifer ceisiadau am waith i'r Tîm Tacluso



Canran ceisiadau i'r Tîm Tacluso wedi eu cwblhau



Tu ôl i'r perfformiad

Yn ystod hanner cyntaf 2026/27 mae'r Tîm Tacluso wedi derbyn 765 o geisiadau am waith. Hyd yma mae'r tîm wedi delio a chwblhau **86.4%** o'r ceisiadau yma. Rhaid nodi bod disgwyl i ffigyrau Medi fod yn is oherwydd dyddiad derbyn y ceisiadau. Caiff pob cais ei asesu cyn gweithredu a caiff blaenoriaeth ei roi ar gyfer cael gwared o graffiti, sydd yn digwydd o fewn ychydig oriau. Ar gyfartaledd mae'n cymryd tua 13 diwrnod i gais gael ei gwblhau.

Mae'r cynnydd yn y nifer ceisiadau o un mis i'r llall yn bennaf oherwydd cynnydd yn y nifer o geisiadau am dorri chwyn trefol. Dros fis Mehefin a Gorffennaf roedd y math cais yma ar ei uchaf cyn disgyn yn ôl ym mis Awst a Medi.

Yn ychwanegol i'r gwaith ceisiadau yma mae'r Tîm Tacluso Ardal Ni ar hyn o bryd yn:

- cynnal treial glanhau twfn yn ardal Bangor gyda'r gwasanaeth glanhau strydoedd pob dydd Mercher
- gweithredu ar gynllun i wella cyfathrebu rhwng adrannau mewnol ac allanol – drwy wneud defnydd o adnoddau eraill sydd ar gael, megis grwpiau cymunedol / gwirfoddolwyr.

GWASANAETH BWRDEISTREFOL - AMANDA MURRAY


Pwrpas y Gwasanaeth :
Darparu cyfleusterau glân a diogel i drigolion/ymwelwyr Gwynedd


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-21 : Cyfartaledd dyddiau i gwblhau ymholiad Toiledau Cyhoeddus





Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r Gwasanaeth Bwrdeistrefol yn gyfrifol am ddarparu a gofalu am 60 o doiledau cyhoeddus ar draws y sir. Yn ogysatal mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am weinyddu ac archwilio 37 o doiledau sydd yn rhan o'r cynllun toiledau cymunedol.

Derbyniodd y gwasanaeth gyfanswm o 129 o ymholiadau yn ystod hanner cyntaf 2026/27.

Mae natur yr ymholiadau yn amrywio yn fawr o holi am oriau agor i gwynion am gyfarpar wedi malu neu wedi ei ddifrodi. Gall yr amser ymateb felly amrywio yn fawr. Gellir adrodd bod oddeutu 23% yn ymwneud â glendid y toiledau, 17% o'r ymholiadau yn ymwneud â oriau agor, 16% arall i wneud â toiled wedi blocio.

Nifer dyddiau i ymateb i ymholiad ar gyfartaledd oedd **4 dydd** rhwng Ebrill a Medi.

GWASANAETH BWRDEISTREFOL - AMANDA MURRAY

Pwrpas y Gwasanaeth : Archwilio a chynnal 124 o barciau chwarae yn y sir er mwyn cynnig amgylchedd saff i blant chwarae.

Blwyddyn 2026/27


Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

PP-22 : Sgôr allan o 5 ar gyfer Bodlonrwydd Cwsmer Parciau Chwarae

Rydym fel gwasanaeth wedi rhoi arwyddion i fyny yn ein parciau chwarae fel gallwn glywed barn ein defnyddwyr. Cafodd yr arwyddion eu dechrau rhoi fyny ym mis Medi yn ardal Bangor a Bethesda. Bydd gweddill yr arwyddion yn cael eu gosod maes o law ar draws y sir.

Gan dderbyn mai cynnar yn y broses ydi hi, roedd 6 ymateb wedi eu derbyn erbyn diwedd Medi, ac ar gyfartaledd rydym wedi derbyn sgôr o **3.0 allan o 5.**



Enghreifftiau o sylwadau cadarnhaol

- Gwych gweld meinciau er mwyn i'r rhieni gael eistedd tra mae'r plant yn chwarae
- Lleoliad hyfryd a distaw
- Y llawr newydd yn dda

Enghreifftiau o sylwadau llai cadarnhaol

- Offer yn hen / wedi malu
- Dim llawer o amrywiaeth
- Gwair ddim yn cael ei dorri
- Angen mwy o gyfarpar ar gyfer babanod
- Biniau wastad yn llawn a ddim yn cael eu gwagio

Bydd y gwasanaeth yn gwneud defnydd o'r sylwadau yma er gwella'r gwasanaeth ble mae'n bosibl gyda'r adnoddau sydd ar gael, a thrwy gyd-weithio gyda gwasanaethau eraill.



GWASANAETH ADEILADU AC ISADEILEDD - GARETH LLOYD WRIGHT

Pwrpas y Gwasanaeth :
Cynnal gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid Uned Adeiladu YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd â gofynion y cwsmer i alluogi'r gwasanaeth gyrraedd y targed incwm blynyddol.


Blwyddyn: 2026/27

Mis: Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

YGC-23 : Cwrdd â tharged ariannol yr Uned Adeiladu

Cymhariaeth misol Uned Adeiladu



Tu ôl i'r perfformiad

Mae perfformiad y timau wedi bod yn dda ar eu prosiectau, gan gyflawni llawer o waith adeiladu o fewn ysgolion Gwynedd dros gyfnod yr haf.

Mae'r Uned yn parhau i gyflawni gwaith amrywiol i sawl cleiant mewnol ac allanol gan gynnwys gwaith cynnal a chadw a datgarboneiddio.

Mae nifer o aelodau staff y timau Syrfewyr Adeiladau a Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladau yn unai gweithio tuag at gymwysterau academaidd neu gymwysterau proffesiynol ac yn datblygu'n dda.

GWASANAETH BUSNES A CHYFLAWNI PROSIECT - RHYS WYNN WILLIAMS

Pwrpas y Gwasanaeth :
Cynnal gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd â gofynion y cwsmer i alluogi'r gwasanaeth gyrraedd y targed incwm blynyddol.


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

YGC-24 : Cwrdd â tharged ariannol YGC gyfan

Cymhariaeth misol YGC gyfan



Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r llif gwaith ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2026-27 yn gryf iawn. Drwy trafodaethau gyda ein prif gleientiaid mae i weld fod gwaith digonol ar gael am weddill y flwyddyn, ac felly mae proffil y gwaith sydd wedi ei raglennu yn gyson gyda phroffiliau'r blynyddoedd blaenorol.

GWASANAETH BUSNES A CHYFLAWNI PROSIECT - SION ARWEL JONES


Pwrpas y Gwasanaeth :
Cynnal gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid YGC sydd yn gystadleuol ac yn cwrdd â gofynion y cwsmer.

Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

YGC-25 : Sgôr allan o 10 ar gyfer Bodlonrwydd Cwsmer



Tu ôl i'r perfformiad

Asiantaeth Cefnffyrdd
Mae sgôr Cefnffyrdd wedi gostwng ychydig oherwydd problem gyda system cofnodi PMS yr Asiant, o 9.6 i 8.9. Mae'r Asiant yn edrych i mewn i hyn gan mae problem gyda'u trefniadau cofnodi ydi'r rheswm dros ostyngiad sgôr nid adlewyrchiad ar wasanaeth YGC.

Sifil
Mae YGC wedi adolygu'r trefniadau bilio ac felly nid yw'n bosib parhau anfon holiaduron bodlonrwydd cwsmer i'r cleient pan fo anfoneb wedi ei godi yn ddyledus. Byddai parhau gyda'r drefn yn golygu bod Cleient yn derbyn holiadur yn fisol ac yn gynamserol. Mae newidiadau ar waith i system K2 PP/YGC fydd yn cofnodi'r 'Dyddiad Cau Prosiect' fel y sbardun i anfon yr holiadur i'r Cleient. Nid yw'r drefn yma wedi ei gwblhau eto felly nid os posib anfon holiaduron Bodlonrwydd Cwsmer yn y byr dymor yn anffodus.

Tai ac Eiddo
Nid oes prosiect ar gyfer yr Adran Tai ac Eiddo wedi ei gwblhau yn y cyfnod, felly nid oes posib adrodd ar sgôr Bodlonrwydd Cwsmer. Gweler sylwad 'Sifil' uchod sydd hefyd yn berthnasol.

SDC
Mae holiaduron yn parhau i gael eu hanfon allan gyda phob penderfyniad cais SuDS. Yn anffodus, ni dderbyniwyd unrhyw ymateb yn ystod y cyfnod.

GWASANAETH DŴR AC AMGYLCHEDD - ROB WILLIAMS

Pwrpas y Gwasanaeth :
Lleihau risg llifogydd i drigolion Gwynedd drwy gynnal Rhaglen Cynnal a Chadw Asedau Arfordirol a Mewndirol y sir mewn modd ddiogel ac amserol.

Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

YGC-26 : Canran yr asedau sydd mewn cyflwr boddhaol neu well

Blwyddyn	2024/25		2025/26		2026/27	
Gradd	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
1. Da iawn	3	1.5%	13	5.4%	9	4.6%
2. Da	68	33.7%	90	37.5%	74	38.1%
3. Boddhaol	83	41.1%	95	39.6%	92	47.4%
4. Gwael	21	10.4%	17	7.1%	9	4.6%
5. Gwael iawn	27	13.4%	25	10.4%	10	5.2%
Cyfanswm	**202**	**100.0%**	**240**	**100.0%**	**194**	**100.0%**

Canran asedau mewn cyflwr boddhaol neu well

2024/25	2025/26	2026/27
76.2%	**82.5%**	**90.2%**

Tu ôl i'r perfformiad

Hyd yma, mae'r uned wedi archwilio 194 o asedau rheoli risg llifogydd, ac mae 72 yn weddill i'w harchwilio. Disgwylir cwblhau'r gwaith dros yr wythnosau nesaf.

Mae rhai asedau/unedau wedi'u hystyried yn anghynaladwy i'w hatgyweirio, naill a'i oherwydd eu cyflwr neu am eu bod yn rhan o astudiaeth neu gynllun ehangach ac o ganlyniad ni fyddant yn cael eu harchwilio (e.e. grwyni Bermo a Chricieth, sef mwyafrif yr asedau sy'n sgorio 5) .

Mae'r wybodaeth yn y tabl yn crynhoi canlyniadau'r flwyddyn hyd yma.

Mae canlyniadau yr archwiliadau uchod yn bwydo ein rhaglen cynnal a chadw dros y misoedd i ddod. O ganlyniad mae gwaith ar y gweill mewn sawl lleoliad gan gynnwys Talybont, Llanberis, Brynrefail, Ceunant, Tremadog, Tywyn, Abermaw, Borth y Gest a Chricieth

GWASANAETH DŴR AC AMGYLCHEDD - ROB WILLIAMS

Pwrpas y Gwasanaeth :
Adolygu ceisiadau SDC yn amserol a sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn cwrdd â rheoliadau Llywodraeth Cymru.


Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

YGC-27 : Canran ceisiadau SDC wedi derbyn penderfyniad o fewn y targed

Nifer dyddiau i gymeadwyo ceisiadau SDC



38
Nifer Ceisiadau wedi eu cymeradwyo

89.5%
Canran wedi eu cymeradwyo o fewn y targed

Tu ôl i'r perfformiad

Ers y 7fed o Ionawr 2019 mae gofyn statudol yn Nghymru i bob datblygiad newydd o fwy nag 1 tŷ, neu ble mae'r ardal adeiladu yn 100m2 neu fwy, i ddarparu systemau draenio cynaliadwy (SDC) ar gyfer rheoli dŵr wyneb.

Mae'n rhaid i gynlluniau SDC gael eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd drwy'r Corff Cymeradwyo SDC, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.
Bydd bob cais yn cael ei ystyried yn erbyn y safonau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Amser statudol i gymeradwyo cais ydy 7 wythnos neu 49 diwrnod.

Mewn rhai achosion bydd swyddogion yn ymestyn yr amser er mwyn caniatau mwy o amser i'r ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth ychwanegol, yn hytrach na gorfod gwrthod y ceisiadau.

Mae'r gwasanaeth yn credu bod hyn yn ffordd well o ran gofal cwsmer er ei fod yn golygu bod cais yn cael ei gymeradwyo yn hwyr.

Rhwng Ebrill a Medi cymeradwywyd 38 o geisiadau gyda 34 ohonynt o fewn ein targed osodwyd.

GWASANAETH DŴR AC AMGYLCHEDD - ROB WILLIAMS

Pwrpas y Gwasanaeth :
Lleihau risg llifogydd i drigolion Gwynedd drwy gynnal rhaglen waith yn ychwanegol i uwchraddio asedau presennol.

Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

YGC-28 : Nifer Cynlluniau Llifogydd wedi cwblhau

Cynllun	Disgrifiad	Statws
Bangor	Astudiaeth dŵr wyneb	Parhau ar y rhaglen
Blaenau Ffestiniog	Astudiaeth dŵr wyneb	Parhau ar y rhaglen
Clynnog Fawr	Achos Busnes - Edrych ar opisynau	Parhau ar y rhaglen
Cricieth Arfordirol	Achos Busnes - Edrych ar opisynau	Parhau ar y rhaglen
Cricieth Dŵr Wyneb	Achos Busnes - Edrych ar opisynau	Parhau ar y rhaglen
Groeslon	Dyluniad manwl gan gynnwys gwelliannau i'r cwrs dŵr a cwlfert i leihau'r risg o rwystrau yn yr afon	Parhau ar y rhaglen
Prom Y Gogledd Abermaw	Dyluniad manwl ac achos busnes llawn ar gyfer amddiffyn yr arfordir ar gyfer ardal gogledd Prom yn Abermaw	Parhau ar y rhaglen
Waunfawr	Dyluniad manwl i liniaru problemau llifogydd yng nghwlfertau Cae'r Waun a Phant y Waun	Parhau ar y rhaglen
Cae Glas Abermaw	Amddiffyn yr arfordir ar gyfer ardal Gerddi Cae Glas Abermaw, yn cynnwys morglawdd newydd, system dŵr wyneb ac amddiffyniad lefel eiddo	Rhaglen wedi llithro / Cynydd mewn costau
Bontnewydd	Dyluniad manwl ac achos busnes llawn ar gyfer mesurau lliniaru llifogydd Bontnewydd	Yn ôl ar y rhaglen
Hirael	Gwaith adeiladu amddiffynfeydd arfordirol wedi cychwyn ers Mai 2023	Yn ôl ar y rhaglen
Mynydd Llandegai	Dyluniad manwl ac achos busnes llawn ar gyfer ystod o fesurau i leihau'r risg o lifogydd dŵr wyneb a llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin	Yn ôl ar y rhaglen

Tu ôl i'r perfformiad

- Mae gwaith celf Hirael bellach yn ei le, ac mae y cynllun teithio llesol wedi cychwyn
- Mae cais cynllunio Prom y Gogledd, Abermaw wedi'i gyflwyno a bydd yr achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd y flwyddyn.
- O ran Cynllun Gerddi Cae Glas, Abermaw mae'r contractwr oddi ar y safle dros gyfnod yr haf, ond bydd yn dychwelyd ym mis Hydref oherwydd gwaith gan angenrheidiol gan SPEN.
- Rhagwelir y bydd contractwr wedi'i benodi i ddechrau prosiectau Bontnewydd a Mynydd Llandegai erbyn diwedd y flwyddyn arianol.
- Mae cynlluniau newydd hefyd ar y gweill ym Mlaenau Ffestiniog a Bangor i edrych ar risgiau dŵr wyneb.
- Camau nesaf yr achosion busnes yng Nghricieth wedi cychwyn
- Yn ychwanegol i'r cynlluniau hyn, rydym yn gweithio ym Meddgelert ac ym Mlaenau Ffestiniog ar gynlluniau rheoli risg dŵr drwy ddefnyddio dulliau naturiol.

GWASANAETH DECHNEGOL - OWEN RHYS JONES


Pwrpas y Gwasanaeth :
Cynnal pontydd a waliau cynnal ar rwydwaith ffyrdd Gwynedd.

Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

YGC-29 : Canran strwythurau mewn cyflwr boddhaol neu yn well yn seiliedig ar sgôr BCI Cyflwr "derbyniol"



Sgôr BCI	Amrediad Sgôr	Nifer strwythurau	% BCI Cyflwr "derbyniol"
Da iawn	90 i fyny	180	24.5%
Da	80 i 89	35	34.6%
Boddhaol	65 i 79	226	31.6%
Gwael	40 i 64	122	9.0%
Gwael iawn	o dan 39	51	0.3%
Cyfanswm			**100.0%**

Tu ôl i'r perfformiad

Mae'r data yma yn crynhoi cyflwr ein stoc pontydd ffyrdd yng Ngwynedd. Rydym yn gyfrifol am 631 o bontydd ffyrdd i gyd.

Defnyddir y dangosydd sgôr BCI (Bridge Condition Index) er mwyn darganfod cyflwr ein pontydd ffyrdd.

Mae'r sgôr hwn yn deillio o'r data yn dilyn yr archwiliad diweddaraf ar ein pontydd ac yn ystyried holl elfennau'r strwythur .

Ystyrir bod strwythur mewn cyflwr boddhaol os yw'r sgôr BCI yn fwy na 65.

Ar y cyfan mae stoc pontydd ffyrdd Gwynedd yn dda gyda 91% gyda sgor o 65 neu uwch.

Bydd adolygiad o'r holl strwythurau sydd wedi sgorio yn îs yn cael ei gynnal gan beiriannydd, a bydd unrhyw bryder sy'n codi yn derbyn asesiad arbennig, a gwaith adfer priodol.

Ar gyfer strwythurau ble mae materion mwy yn cael eu darganfod, byddant yn cael eu rheoli o dan y safon ar gyfer rheoli strwythurau is-safonol hyd nes fod datrysiad yn bosib.

GWASANAETH DEHNEGOL - OWEN RHYS JONES

Pwrpas y Gwasanaeth :
Cynnal pontydd a waliau cynnal ar rwydwaith ffyrdd Gwynedd.

Blwyddyn 2026/27

Mis Medi

Yn ôl i'r dashfwrdd

YGC-30 : Canran o'r archwiliadau pontydd ffyrdd wedi eu cwblhau

Archwiliadau Pontydd	Nifer i'w archwilio	Nifer wedi eu harchwilio hyd yma	% wedi i'w archwilio
Arfon Dosbarth 3 a Di-ddosbarth	88	0	0.0%
Dwyfor Dosbarth 3 a Di-ddosbarth	108	25	23.1%
Meirionnydd Dosbarth 1 a 2	83	83	100.0%
Cyfanswm	**279**	**108**	**38.7%**

Tu ôl i'r perfformiad

Rydym fel gwasanaeth yn gyfrifol am raglen archwilio a chynnal pontydd ffyrdd Gwynedd.

Rydym yn archwilio 631 o bontydd dros raglen o ddwy flynedd .

Mae rhaglen archwiliadau eleni o 279 o bontydd wedi cychwyn fel y gwelir yn y tabl. Ni ragwelir unrhyw broblemau o ran cwblhau'r archwiliadau cyn diwedd y flwyddyn.